CYFRES C10

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch,dd,ff,ng,ll,ph,rh,th

DARLLENWCH
1 Brenhinoedd 19: 19-21
2 Brenhinoedd 2: 1-22

ADNOD ALLWEDDOL
2 Brenhinoedd 2: 14

Astudiaeth 1 Eliseus ac Elias

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Mathew 6:24 Rhufeiniaid 12: 1 a 2 1 Thesaloniaid 4: 16-18

Mab i ffermwr o'r enw Saffat oedd Eliseus. Mae i bob enw yn y Beibl ystyr arbennig ac ystyr 'Eliseus' yw 'Iachawdwriaeth yw Duw'. Roedd Duw wedi trefnu fod Eliseus yn achub Ei bobl. Dyma'n union sut y dechreuodd yr hanes.

1. 1 Brenhinoedd 19: 19-21. Elias ac Eliseus yn cyfarfod.

POS

Un diwrnod, roedd Eliseus yn (1 i lawr) cae gydag aradr bren oedd yn cael ei thynnu gan (2 i lawr) – roedd y bachgen yn dilyn y (3 ar draws) pâr. Daeth Elias, y proffwyd enwog ato a thaflu ei fantell drosto. Rhedodd Eliseus ar ei ôl a dywedodd, "Gad imi ffarwelio â'm (4 i lawr) a'm (5 ar draws), ac mi ddof ar dy ôl."



5

Lladdodd Eliseus ddau ych, torrodd yr aradr yn goed tân, coginiodd y cig, a pharatôdd bryd bwyd i bawb.



C Beth wnaeth e wedyn?

1

Gwnaeth Eliseus hyn i gyd am ei fod yn deall, wedi i Elias daflu ei glogyn drosto, fod Duw yn ei alw i'w ddilyn a'i wasanaethu Ef. Heb betruso dim, aeth Eliseus o'i fodd ar ei ôl.

2. 2 Brenhinoedd 2: 1-15. Elias ac Eliseus yn gwahanu.

Bu Eliseus ac Elias yn cydweithio am nifer o flynyddoedd. Ond, daeth yr amser pan wyddai Elias fod ei waith dros Dduw ar ben.



C **Ar y map, llanwch enwau'r lleoedd y bu'r ddau yn ymweld â nhw.**

2

Ym mhob un o'r mannau hyn, ceisiodd Elias ddarbwyllo Eliseus i aros ar ôl, ond gwrthododd hwnnw'n bendant. .

GRID GEIRIAU

Rholiodd Elias ei glogyn a thrawodd y 1. Ymrannodd hwnnw, gan adael iddynt groesi ar 4 (dau air) i'r ochr draw. Wrth iddynt gydgerdded a siarad, ymddangosodd cerbyd 2 yn cael ei dynnu gan feirch 3. Esgynnodd Elias i'r Nefoedd mewn 5 mawr.



6 I Lawr:
Nifer y proffwydi o Jericho a ddilynodd Elias ac Eliseus.
Lliwiwch eich ateb

3

Os ydym yn Gristnogion, fe wyddom y byddwn ninnau hefyd, un diwrnod, yn cael ein cymryd i'r Nefoedd i fod gyda'r Arglwydd.

1

C **Yn yr Adnod Allweddol, gofynnodd Eliseus gwestiwn. Beth oedd y cwestiwn hwn?**

2

C **Ym mha ffordd yr ymatebodd yr Arglwydd pan drawodd Eliseus y dŵr?**

1

C **Roedd y proffwydi eraill yn gwylio. Beth, meddent, oedd ystyr hyn?**

3. 2 Brenhinoedd 2: 19-22. Gwyrth gyhoeddus gyntaf Eliseus.

CHWILAIR BYR
Llanwch y bylchau a rhowch gylch o gwmpas yr atebion ar y Chwilair.

Ff	A	R	W	D
Y	N	L	S	M
N	E	W	Y	Dd
N	L	Ch	W	A
O	A	Ng	A	U
N	H	Ff	G	E

Cwynodd trigolion Jericho wrth Eliseus gan ddweud, er bod y dref yn lle dymunol, roedd y ..... yn wenwynig.
Gofynnodd Eliseus am ychydig ..... mewn llestr ..... crai.
Taflodd yr halen i'r ..... a phurwyd y dŵr. Addawodd yr Arglwydd, drwy Eliseus, fod y dŵr bellach yn bur ac na fyddai fyth eto yn achosi ..... .

5

Yn yr astudiaeth hon, cawsom ein cyflwyno i Eliseus. Galwodd Duw ef i barhau gyda gwaith Elias a rhoddodd iddo'r holl nerth a'r gallu oedd ei angen arno i wneud hynny, yn yr un modd ag y gwnaeth Ef gydag Elias. Os byddwn yn ymddiried yn Nuw, fel y gwnâi'r rhain, ac yn cyflwyno ein bywydau i'r Arglwydd Iesu fel ein Gwaredwr personol, gallwn ddibynnu arno Ef i roi i ni'r nerth i gyflawni gwaith Duw.

Enw _____

DARLLENWCH
2 Brenhinoedd 4: 1- 44

ADNOD ALLWEDDOL
2 Brenhinoedd 4: 33

Astudiaeth 2 Eliseus a'r Tlodion

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Effesiaid 3: 20 a 21 Philipiaid 4:13

Cawn ddarllen yn yr astudiaeth hon am bedair gwyrth a gyflawnodd Duw drwy Eliseus.

1. Adnodau 1-7. Y Wraig Weddw Dlawd.

C **Daeth gwraig at Eliseus mewn cyfyngder a thrafferth mawr. Beth oedd ei phroblem?** 2

C **Gofynnodd Eliseus ddau gwestiwn iddi. Beth oedden nhw?** 1

1

2

C **Beth oedd yr unig beth oedd gan y wraig weddw yn ei thŷ?** 1

Dywedodd Eliseus wrthi beth i'w wneud.

C **Gosodwch y gorchmynion canlynol yn y drefn gywir drwy osod y rhifau 1 i 6 yn y blychau.** 3

- ☐ Dos i mewn i'r tŷ gyda dy feibion.
- ☐ Tâl dy ddyledion a bydd fyw ar y gweddill.
- ☐ Benthyg lestri gweigion gan dy gymdogion.
- ☐ Gwertha'r olew.
- ☐ Tywallt olew i'r llestri nes eu bod yn llawn.
- ☐ Cau dy ddrws.



2. Adnodau 8-37. Y Wraig o Sunem.



Ar Draws
5. Dywedodd y mab y geiriau hyn wrth ei dad. (Dau air)
6. Gwas Eliseus.
7 a 9. Dau ddodrefnyn yn ystafell Eliseus.
8. Ar ôl dod o hyd i Eliseus ar y mynydd, cydiodd y wraig yn ei _ _ _ _ _
10. Yr adeg pan fu farw'r mab. (dau air)
11 a 13 i lawr. Disgrifir Eliseus fel _ _ _ _ _ _
I Lawr
1. Enw'r lle'r oedd y wraig yn byw.
2. Enw'r mynydd lle cafodd y wraig hyd i Eliseus.
3 a 4. Dwy ran o'r corff sy'n cael eu crybwyll pan orweddodd Eliseus dros y bachgen.
12.Sawl gwaith y tisiodd y bachgen.
13. ac 11 ar draws Disgrifir Eliseus fel _ _ _ _ _ _ 6

C **Beth wnaeth Eliseus yn yr Adnod Allweddol?**

1

Gwyddai Eliseus na fedrai wneud dim dros y bachgen – doedd ganddo mo'r gallu. Dim ond nerth Duw ar waith drwy Eliseus a'i galluogodd i gyflawni gwyrthiau. Profwyd hyn unwaith eto pan ddaeth mab y weddw nôl yn fyw.

3. Adnodau 38-41. Angau yn y Crochan.

Ar brydiau, byddai Eliseus yn byw gyda chymuned o broffwydi yn ardal Gilgal, ar wastadedd Jericho. Mewn ardaloedd anial, lle'r oedd bywyd yn galed, roedd cymunedau o'r fath i'w cael fel arfer. Adeg newyn, doedd ganddynt ddim i'w fwyta, ac eithrio'r ychydig blanhigion gwyllt y byddent yn dod o hyd iddynt.

C **Beth oedd cynhwysion y cawl?**

1

C **Beth ddywedodd y proffwydi pan brofasant y cawl?**

1

C **Beth daflodd Eliseus i'r crochan?**

1

Dyma enghraifft arall o'r gallu roedd Duw wedi ei roi i Eliseus.

4. Adnodau 42-44. Amlhau'r Bwyd

C **Pa fwyd a ddarparwyd gan y ffermwr o Baal-salisa?**

2

C **Faint o ddynion gafodd eu bwydo â'r bwyd hwn?**

1

Roedd bwyd dros ben wedi iddyn nhw fwyta, yn union fel y dywedodd yr Arglwydd. Gwelwn yma ddarpariaeth Duw ar gyfer Ei bobl, fel yn y wyrth gyntaf yn y bennod. Mae'r Beibl yn dysgu fod Duw yn gallu gwneud yn anhraethol well na dim y gallwn ni ofyn na meddwl amdano. (Effesiaid 3:20). Pan fyddwn yn dod yn Gristnogion, mae'r Ysbryd Glân yn dod i fyw ynom ni.

(Darllenwch 1 Corinthiaid 6:19) Yr Ysbryd Glân sy'n ein galluogi i wneud pethau mawr dros Dduw.

Enw _____

DARLLENWCH
2 Brenhinoedd 5: 1-27

ADNOD ALLWEDDOL
2 Brenhinoedd 5: 15

Astudiaeth 3 Eliseus a Swyddog y Fyddin

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Numeri 32:23 2 Corinthiaid 5:17 Galatiaid 6:7

Capten byddin brenin Syria (neu Aram) yw testun yr astudiaeth hon.

C **Sut ddyn oedd y capten hwn?** 2

Yn anffodus, roedd wedi dal y clefyd arswydus hwnnw – y gwahanglwyf neu'r leprosi – haint cyffredin nad oedd modd ei wella. Ond, gwyddai morwyn ifanc gwraig Naaman am rywun yn ei gwlad enedigol fyddai'n gallu ei iacháu.

C **Dim ond tri pherson sy'n cael eu henwi yn y bennod hon. Ysgrifennwch eu henwau yn y pos.**

1. Y proffwyd.
2. Capten y fyddin.
3. Gwas y proffwyd.



3

Cychwynnodd capten y fyddin ar ei daith i Israel. Cariai anrhegion drud a llythyr i frenin Israel yn y gobaith y câi iachâd ganddo.

C **Beth wnaeth Jehoram, brenin Israel, pan ddarllenodd y llythyr?** 1

C **Pam roedd e'n meddwl fod brenin Syria wedi gofyn am y fath beth amhosibl?** 1

C **Mae'r tri lle sy'n cael eu henwi yn y bennod yn ffitio i mewn i'r pos CRIS-GROES hwn.**

1. Roedd Eliseus yn byw yn ..... .
2. Daethai'r forwyn ifanc o ..... .
3. Soniodd Naaman am afonydd dinas o'r enw ..... .



Anfonodd Eliseus neges i ddweud wrth Naaman am ddod i'w dŷ. Ni ddaeth y proffwyd allan i siarad â Naaman. Ni ofynnodd iddo ddod i mewn chwaith ond anfonodd ei was i roi neges i'r capten.

C **Beth oedd y neges?** 1

C **Beth oedd ymateb cyntaf Naaman i hyn?**

C **Pwy gafodd berswâd arno i ddilyn cyfarwyddiadau Eliseus?**

Daeth Naaman yn ôl at Eliseus yn llawn diolchgarwch am ei iachâd gwyrthiol. Cynigiodd y milwr wobr i Eliseus, ond gwrthododd y proffwyd y rhodd. Roedd Naaman nid yn unig yn ddyn newydd ar y tu allan - cafodd ei iacháu o'r gwahanglwyf – ond roedd hefyd wedi'i newid oddi mewn. Eilunaddolwr oedd cyn hyn, yn addoli delw gau dduw.

C **Beth oedd enw'r gau dduw hwn?**

Nawr gwyddai mai dim ond un gwir Dduw oedd, a'r Duw a addolai Eliseus oedd hwnnw.

C **Ysgrifennwch y rhan honno o'r Adnod Allweddol sy'n dweud hynny wrthym.**

C **Ar ôl darganfod hyn, roedd yn bwriadu newid ei ffordd o fyw. Beth na fyddai'n ei wneud o hyn ymlaen? (Adnod 17)**

Mae Duw yn newid bywydau pobl.
A yw Ef wedi newid eich bywyd chi?

C **Beth ddywedodd Eliseus wrth Naaman cyn ymadael?**

Roedd Gehasi wedi bod yn was i Eliseus ers cryn amser.
Wrth iddo feddwl am y rhoddion drud a wrthodwyd gan ei feistr, aeth trachwant yn drech na Gehasi a rhedodd ar ôl Naaman.

C **Pa gelwydd ddywedodd e wrth Naaman er mwyn cael rhywfaint o'r arian a'r dillad crand oedd gan Naaman yn ei feddiant?**

Cuddiodd y gwas yr arian a'r dillad, ond roedd Duw wedi datgelu popeth a ddigwyddodd wrth Eliseus ac felly, gofynnodd y proffwyd i Gehasi ble'r oedd e wedi bod. Dywedodd Gehasi gelwydd arall.

C **Beth oedd ateb Gehasi?**

Mae'n bosibl fod Gehasi wedi meddwl y câi ddianc heb gosb, ond roedd Duw eisoes wedi dweud wrth Eliseus am yr hyn a ddigwyddodd.

C **Beth ddigwyddodd i Gehasi?**

Arweiniodd trachwant Gehasi at gelwyddau ac yna at farn Duw. Dyma beth oedd diwedd trist i ddyn a dreuliodd flynyddoedd yng nghwmni gŵr Duw ac un a fu'n dyst i gynifer o wyrthiau grymus. Rydym ni i gyd yr un mor euog â Gehasi oherwydd yr holl bethau drwg a wnawn. Ni allwn newid ein hunain, yn union fel na fedrai Naaman ei iacháu ei hun. Rhaid i ni dderbyn y maddeuant sy'n dod oddi wrth Dduw. Mae 2 Corinthiaid 5:17 yn dweud wrthym, "Os yw rhywun yng Nghrist, y mae'n greadigaeth newydd; aeth yr hen heibio, y mae'r newydd yma."

Enw _____

DARLLENWCH
2 Brenhinoedd
6: 24 a 25
7: 1-20

ADNOD ALLWEDDOL
1 Corinthiaid 15: 57

Astudiaeth 4 Eliseus a Byddin y Syriaid

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Luc 4: 17-19 Ioan 6 1 Ioan: 6 a 7

Roedd byddin Syria, dan y Brenin Ben-hadad o Damascus, wedi goresgyn Israel drwy rym ac wedi amgylchynu Samaria, lle'r oedd cartref swyddogol Jehoram, Brenin Israel.
Ynyswyd y ddinas yn gyfan gwbl a daeth cyfnod o newyn. Roedd hi'n argyfwng yno a'r Brenin Jehoram mewn anobaith llwyr. Edrychodd o'i amgylch am rywun i'w feio am eu haflwydd – Eliseus! Cyhoeddodd y brenin y byddai'n torri pen Eliseus ac aeth i ymweld â'r proffwyd, a oedd hefyd yn byw yn Samaria. Ond roedd Eliseus yn disgwyl amdano ac roedd wedi derbyn neges gan yr Arglwydd ar ei gyfer.

C **Beth oedd neges Eliseus?**



2

Ni fedrai swyddog y brenin gredu fod yr Arglwydd yn gallu trefnu i hyn ddigwydd. Roedd gan Eliseus neges i'r gŵr hwn hefyd.

C **Beth oedd y neges?**



2

Mae gweddill y bennod yn dangos sut y caiff y ddwy neges hon eu gwireddu. Roedd pethau'n edrych mor anobeithiol i drigolion Samaria, ond fe ymyrrodd Duw.

C **Beth barodd yr Arglwydd i'r fyddin glywed?**

2

Credai'r Syriaid (Arameaid) fod brenin Israel wedi cyflogi brenin yr Hethiaid a'r Eifftiaid i ymosod arnynt!

C **Beth wnaethon nhw?**

1

Wrth borth Samaria safai pedwar dyn yn trafod beth ddylen nhw ei wneud. Roedden nhw'n byw y tu allan i furiau'r ddinas gan eu bod yn dioddef o'r clefyd erchyll hwnnw – y gwahanglwyf, neu'r leprosi –a doedd dim hawl ganddynt fyw gyda'u teuluoedd a'u tylwyth. Roedd rhain hefyd yn llwgu. Credent mai un dewis yn unig oedd ar ôl oes oedd unrhyw obaith ganddynt am gael byw.

C **Beth benderfynodd y pedwar ei wneud?**

1

C **Ysgrifennwch GWIR neu ANWIR wrth ymyl pob un o'r canlynol.**

1

Roedd hi'n ganol dydd pan gyrhaeddon nhw yng ngwersyll y Syriaid. .....
Er mawr syndod iddyn nhw, doedd neb yno. .....
Aethon nhw i un o'r pebyll a chysgu. .....
Aethant ag arian, aur a dillad oddi yno a'u cuddio. .....
Dychwelsant dro ar ôl tro i ddwyn gymaint ag y gallent o bob pabell a chuddiasant yr ysbail. .....

5

Roedd pyrth y ddinas yn cael eu cau fin nos, ac roedd milwyr yno i'w gwarchod. Doedd dim perygl y byddai neb yn tarfu ar y gwahangleifion wrth iddynt ysbeilio'r gwersyll. Ond, yn sydyn, dechreuodd y dynion feddwl am yr hyn roedden nhw'n ei wneud a sylweddolodd y pedwar mor hunanol oedden nhw mewn gwirionedd.

C **Beth benderfynon nhw?**

1

Pan glywodd y brenin eu newyddion, credai fod y Syriaid yn ceisio twyllo'i bobl drwy beri iddyn nhw feddwl ei bod yn ddiogel i'r Israeliaid adael y ddinas i chwilio am fwyd; efallai bod byddin y Syriaid yn cuddio yn y caeau yn barod i ymosod arnynt! Anfonodd nifer o'i ddynion mewn cerbydau rhyfel i archwilio'r sefyllfa.

C **Beth welson nhw?**

2

Rhuthrodd y bobl allan o'r ddinas ac aethant ati i ysbeilio pebyll y Syriaid. Roedd digonedd o fwyd ar gael unwaith eto a gostyngodd y prisiau'n ddirfawr, yn union fel y rhagfynegodd Eliseus. Ni fu newyddion da'r gwahangleifion yn hir cyn lledu drwy'r ddinas. Roedd Duw wedi rhoi buddugoliaeth i drigolion Samaria dros eu gelynion a hynny yn y ffordd fwyaf rhyfeddol. Gwireddwyd ail broffwydoliaeth Eliseus (adnod 2) hefyd.

C **Sut?**

2

Daeth yr Arglwydd Iesu hefyd â "newyddion da" ac mae ar gael i bawb sy'n credu ynddo Ef.

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

2

Dyma'r "newyddion da" – gallwn ni gael buddugoliaeth dros bechod a marwolaeth (1 Corinthiaid 15: 54-56). Sut? Drwy'r Arglwydd Iesu Grist. Mae angen buddugoliaeth ar bob un ohonom dros bechod bob dydd o'n hoes hefyd, ar ôl i ni ddod yn Gristnogion. Rhaid i ni gerdded yn agos at yr Arglwydd Iesu ac ymddiried yn llwyr Ynddo Ef. Wedyn cawn y fuddugoliaeth drwyddo Ef - mewn ffyrdd annisgwyl iawn weithiau.

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120